# SL(5)477– Gorchymyn Deddf Llywodraeth Cymru 2006 (Cynigion Cyllidebol a Chyrff Dynodedig) (Diwygio) 2019

## Cefndir a Diben

Mae’r Gorchymyn hwn yn diwygio Gorchymyn Deddf Llywodraeth Cymru 2006 (Cynigion Cyllidebol a Chyrff Dynodedig) 2018 sy’n dynodi cyrff penodedig mewn perthynas â Gweinidogion Cymru er mwyn cynnwys, o fewn cynnig cyllidebol, yr adnoddau y disgwylir i’r cyrff hynny eu defnyddio.

Mae'r Gorchymyn hwn yn mewnosod tri chorff newydd yn y rhestr o gyrff dynodedig sydd wedi'u cynnwys yn yr Atodlen i Orchymyn 2018.

## Gweithdrefn

Negyddol.

## Materion technegol: craffu

Ni nodir unrhyw bwyntiau i gyflwyno adroddiad arnynt o dan Reol Sefydlog 21.2 mewn perthynas â'r offeryn hwn.

## Rhinweddau: craffu

Nodwyd un pwynt i gyflwyno adroddiad arno o dan Reol Sefydlog 21.2 mewn perthynas â'r offeryn hwn.

1. **Rheol Sefydlog 21.3(ii) – ei fod o bwysigrwydd gwleidyddol neu gyfreithiol neu ei fod yn codi materion polisi cyhoeddus sy’n debyg o fod o ddiddordeb i’r Cynulliad.**

Gallai Gweinidogion Cymru ddewis pa weithdrefn yw defnyddio ar gyfer yr offeryn hwn yn unol ag adrannau 126A(9) ac 126A(1) o Ddeddf Llywodraeth Cymru, a dewiswyd y weithdrefn negyddol sydd, fe ymddengys, yn briodol.

## Y goblygiadau yn sgil gadael yr Undeb Ewropeaidd

Ni nodir unrhyw oblygiadau i gyflwyno adroddiad arnynt o dan Reol Sefydlog 21.3 mewn perthynas â'r offeryn hwn.

## Ymateb y Llywodraeth

Nid oes angen ymateb gan y llywodraeth.

**Cynghorwyr Cyfreithiol**
**Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol**
**2 Rhagfyr 2019**